



Comisiwn
Cydraddoldeb a
Hawliau Dynol

Equality and
Human Rights
Commission

Adroddiad Blynyddol 2017/18 y CCHD ar ei gydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg

Medi 2018

Cynnwys

Cynnwys.....	2
1 Cyflwyniad.....	3
2 Safonau cyflenwi gwasanaeth.....	4
2.1 Cyfathrebu ar y ffôn.....	5
2.2 Cyfathrebu gyda rhanddeiliaid a chynnal digwyddiadau.....	5
2.3 Cyhoeddi ac argraffu deunydd at ddiben y cyhoedd yng Nghymru.....	8
2.4 Y wefan.....	11
2.5 Y cyfryngau cymdeithasol.....	13
2.6 Arwyddion.....	13
2.7 Dyfarnu contractau.....	13
2.8 Safonau Llunio Polisi yng Nghymru.....	14
2.9 Safonau Gweithredu yng Nghymru.....	14
2.10 Safonau Cadw Cofnodion.....	15

1 | Cyflwyniad

Mae'r Comisiwn bob amser wedi mabwysiadu'r egwyddor, cyn belled ag y mae'n gyson â'r amgylchiadau a lle mae'n rhesymol ymarferol, y bydd y corff, wrth drefnu'i waith cyhoeddus yng Nghymru, yn delio â'r iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg yn gyfartal.

Bydd Swyddog Iaith Gymraeg y Comisiwn, ar ei ran, yn goruchwyllo a monitro sut mae'n rhoi Safonau'r Gymraeg ar waith o ddydd i ddydd. Mae'r wythfed adroddiad blynyddol hwn yn amlinellu'r cynnydd, a gyflawnwyd gan y CCHD ar gyfer y flwyddyn 20 Ebrill 2017 - 19 Ebrill 2018, wrth gydymffurfio â'r Safonau.

2 | Safonau cyflenwi gwasanaeth

Mae'r Comisiwn yn darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad a gwasanaeth cyfeirio. I'r perwyl hwnnw, darperir gwybodaeth yng Nghymraeg drwy:

- Wefan ddwyieithog gydag adran newyddion diweddaraf dwyieithog
- Cynadleddau a digwyddiadau Rhwydwaith y Gyfnewidfa Cydraddoldeb, sy'n cynnwys 150 o gyflogwyr. Darperir cyfieithydd ar y pryd yn y digwyddiadau hyn i ganiatáu'r rheiny sydd yn dymuno cyfathrebu drwy'r Gymraeg i wneud hynny. Mae'r pecynnau cynadleddwyr ar gyfer cynadleddau yn ddwyieithog
- Sesiynau fforwm agored Pwyllgor Cymru
- Ymholiadau e-bost ac ar y ffôn - Mae darpariaeth bob amser ar gyfer cyfathrebu drwy e-bost yng Nghymraeg neu'n ddwyieithog. Mae siaradwr Cymraeg fel arfer ar gael i siarad â galwyr ar y ffôn sydd am gyfathrebu yng Nghymraeg. Pan nad yw'n bosibl i roi gwybodaeth arbenigol yng Nghymraeg ar y ffôn, caiff y galwr ddewis naill ai fynd rhagddi yn Saesneg neu gyfathrebu'n Gymraeg yn ysgrifenedig.
- Mae cyhoeddiadau, yn arbennig pan fo'r pwnc yn ymwneud â Chymru, ar gael yng Nghymraeg

Mae'n bwysig i ni yn y Comisiwn bod gan y cyhoedd yng Nghymru ddewis o iaith wrth ddefnyddio'n gwasanaethau. I'r perwyl hwn, rydym yn ymdrechu i sicrhau bod cynifer a phosibl o'n gwasanaethau ar gael yng Nghymraeg. Ein bwriad yw darparu gwasanaethau yng Nghymraeg a Saesneg sydd yn gydradd o ran ansawdd a'u bod ar gael yn y ddwy iaith ar yr un pryd, pan fo'n bosib gwneud felly.

Mae canllawiau ar gyfer staff o ran gweithredu'r safonau wedi'i lwytho ar fewnwyd y Comisiwn. Mae'n nodi arfer da wrth drafod â Chymry Cymraeg eu hiaith, naill ai ar y ffôn neu wrth gyfathrebu'n ysgrifenedig neu'n ddigidol.

Mae'n egluro'r weithdrefn i'w dilyn i sicrhau na fydd cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn arafu neu'n amharu ar ansawdd ein gwasanaeth.

Hysbysir yn glir ar dudalen hafan adran Cymru'r wefan, mewn unrhyw ohebiaeth a chyhoeddiadau ac hysbysiadau sy'n gwahodd unigolion yng Nghymru i ymateb neu gyfathrebu â ni, fod y Comisiwn yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

Caiff ein rhanddeiliaid yng Nghymru ohebaith ddwyieithog gennym bob amser, ond pan fo angen i ni ateb unrhyw ohebiaeth a gawn yn yr iaith Gymraeg, byddwn yn ateb yn Gymraeg yn unig.

Ein bwriad yw defnyddio teclyn rheoli perthynas â rhanddeiliaid (SMART) i ddal a chofnodi dymuniadau iaith.

2.1 Cyfathrebu ar y ffôn

Mae pob galwad ffôn i brif linell y Comisiwn yng Nghymru'n cael ei hateb yn ddwyieithog gydag enw'r Comisiwn yn cael ei roi yng Nghymraeg a Saesneg. Pan fo galwyr yn dechrau'r ddeialog yng Nghymraeg, ond atebwyd yr alwad gan aelod o staff nad yw'n medru'r Gymraeg, cânt ddewis naill ai i barhau'r sgwrs yn Saesneg neu gael eu trosglwyddo at aelod o staff sy'n rhugl yn y Gymraeg. Pan fo'r galwr am gyngor arbenigol ac nis ellir ei roi yn llafar yn y Gymraeg, caiff yr opsiwn o siarad yn Saesneg neu gyfathrebu yn ysgrifenedig yn Gymraeg.

Anogir aelodau arall o staff i ateb galwadau gan alwyr allanol â chyfarchiad dwyieithog ac mae gan bawb neges ddwyieithog ar eu ffôn-ateb personol.

Pan fyddwn yn cyhoeddi ein prif rif ffôn byddwn yn datgan yn Gymraeg a Saesneg ein bod yn croesawu galwadau Cymraeg.

Mae neges ddwyieithog ar wasanaeth ateb ein prif rif ffôn sydd yn dweud wrth alwyr yn Gymraeg bod croeso iddynt adael neges yn Gymraeg.

2.2 Cyfathrebu gyda rhanddeiliaid a chynnal digwyddiadau

Yn ôl yr arfer, cyhoeddir pob cylchlythyr, newyddlen ac e-neges a anfonir at randdeiliaid yng Nghymru yn ddwyieithog. Mae'r un peth yn wir am unrhyw lythyron, gwahoddiadau, arwyddeiriau a throedolion e-bost a anfonwyd gan y Comisiwn (Prydain Fawr) at randdeiliaid yng Nghymru.

Cafodd y gwahoddiadau a ganlyn eu hanfon allan ganddo yn ddwyieithog at randdeiliaid yng Nghymru:

- Hybu adroddiad ar gael gwared ag aflonyddu rhywiol yn y gweithle
- Digwyddiadau ymgynghori ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau
- Digwyddiad lansio adroddiad asesiad effaith cronol, yn Nhŷ'r Cyffredin, Llundain
- Hybu hysbysiad cyflym ar flaenoriaethau cyfreithiol
- Arolwg aflonyddu rhywiol
- Lansio adolygiad y Comisiwn i effeithiolrwydd hyfforddiant ar dueddiadau anymwybodol
- Hyrwyddo e-daflen cymorth y CCHD i gynghorwyr yng Nghymru
- Ymgynghoriad agored Swyddfa Cydraddoldeb y Llywodraeth ar Ddychwelyd i'r gwaith ar ôl cyfnod absenoldeb o ofalu am rywun
- Ymchwil i ddeall y ffordd orau i gyfleu negeseuon hawliau dynol, yn unol â dyletswyddau statudol y Comisiwn i hybu Hawliau Dynol
- Pob achos o hyrwyddo Gweithio Ymlaen, a'i eitemau newyddion a diweddariadau cysylltiedig
- Arolwg Tai'r CCHD
- Digwyddiad briffio'r CCHD yn Nhŷ'r Cyffredin ar y Bil (Ymadael) yr UE: Sicrhau Ymadawiad Teg o'r UE, ar gyfer ASau traws bleidiol, cyn cam pwyllgor Bil (Ymadael) yr UE, i ystyried y goblygiadau a'r cyfleoedd ar gyfer amddiffynfeydd cydraddoldeb a hawliau dynol ym mhob rhan y DU, wrth iddi baratoi gadael yr UE.

Wrth drefnu digwyddiadau ar gyfer rhanddeiliaid yng Nghymru, bydd y Comisiwn yn anfon gwahoddiadau dwyieithog. Gofynnir i gynadleddwyr adael i'r Comisiwn wybod cyn y digwyddiad os ydynt am gyfathrebu yn Gymraeg. Darperir cyfieithydd ar y pryd os bydd o leiaf 10% o gynadleddwyr sydd wedi cofrestru am y digwyddiad yn gofyn am hynny.

Bydd yr holl gyfathrebiadau a anfonir mewn e-byst at rhanddeiliaid cyn y digwyddiadau yn ddwyieithog. Bydd pecynnau'r cynadleddwyr, sy'n cynnwys agenda, ffurflenni gwerthuso, bywgraffiadau siaradwyr gwadd ac unrhyw wybodaeth briodol arall ar gyfer y digwyddiadau, i gyd yn ddwyieithog.

Cynhelir grwpiau trafod fel rhan o brif gynhadledd yn Saesneg gan mwyaf. Bydd cynadleddwyr sydd am gyfathrebu'n Gymraeg yn y grwpiau trafod yn eistedd gyda'i gilydd. Darperir cyfieithydd ar y pryd i unigolion nad ydynt yn deall y Gymraeg ond sy'n rhan o'r grŵp trafod hwn.

Isod mae rhestr o'r digwyddiadau a drefnodd y Comisiwn yng Nghymru yn ystod y flwyddyn. Trefnwyd y cyfan yn unol â'r arfer uchod:

- 11/5/2017– Dosbarth meistr y CIPD ar Feichiogrwydd a Mamolaeth – Caerdydd
- 6/7/2017– Cynhadledd Flynyddol 2017 y Gyfnewidfa Cydraddoldeb a Hawliau Dynol – Yr hawl i fod yn ddynol: hawliau dynol a chyflenwi gwasanaeth cyhoeddus
 - gofynnodd 11/177 i gyfathrebu yn Gymraeg. Cafwyd 7 ffurflen werthuso wedi'u llenwi yn Gymraeg
- 7/7/2017 – Bord gron hawliau dynol
- 4/10/17 – Digwyddiad Gorllewin Cymru'r Gyfnewidfa Cydraddoldeb a Hawliau Dynol – Castell Nedd
 - gofynnodd 1/20 i gyfathrebu yn Gymraeg
- 10/10/17 – digwyddiad Gogledd Cymru'r Gyfnewidfa Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn Wrecsam
 - ni chafwyd cais gan neb i gyfathrebu yn y Gymraeg
- 16/10/17 – Gweithdy asesu effaith gronol – Llywodraeth Cymru a'r Trydydd Sector
- 25/10/17 – Digwyddiad De Cymru'r Gyfnewidfa Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghasnewydd
 - gofynnodd 3/15 i gyfathrebu yn Gymraeg
- 13/11/17 – Lansio adnoddau gwrth fwlio gyda'r Comisiynydd Plant
- 19/11/17 – Diwrnod Rhyngwladol y Dynion a lansio canllaw Gweithio Ymlaen ar absenoldeb tadolaeth
- 21/11/17 – Trafodaeth Sesiwn Lawn y Cynulliad
- 23/11/17 – Digwyddiad dathlu gyda rhanddeiliaid – Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru, y gorffennol, y presennol a'r dyfodol. 10 mlynedd o'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.
- 11/12/17 – Bord gron hawliau dynol – Gogledd Cymru
- 23/1/2018 – Gwaith adeiladu gallu'r Trydydd Sector - Digwyddiad De Cymru
- 7/2/2018 – Digwyddiad Gorllewin Cymru'r Gyfnewidfa Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn Abertawe
- 8/2/2018 – Cynhadledd Menywod i Arweinyddiaeth – Caerdydd
- 20/2/2018 – Darlith Flynyddol y Comisiwn ar Hawliau Dynol
 - cafwyd 3/28 ffurflen werthuso wedi'u llenwi yn Gymraeg
- 27/2/2018 – Digwyddiad y Gyfnewidfa Cydraddoldeb yn Aberdare
- 22/3/2018 – Cynhadledd A yw Prydain yn Decach? - De Cymru

2.3 Cyhoeddi ac argraffu deunydd at ddiben y cyhoedd yng Nghymru

Mae'r ddogfen canllaw 'Rhoi Safonau'r Gymraeg ar Waith', y mae dolen iddi ar y dudalen wefan hon, yn amlinellu arfer y Comisiwn ynglŷn â chyhoeddi ac argraffu deunydd i'r cyhoedd yng Nghymru.

Mae'r Comisiwn wedi cwtdogi ar nifer y cyhoeddiadau copi caled y mae'n ei gyhoeddi. Yn ystod y flwyddyn, cyhoeddodd y Comisiwn y cyhoeddiadau a ganlyn yn ddwyieithog:

Cyhoeddiad	Dyddiad	Copïau a argraffwyd
Adroddiad Ymchwil 107 : Ymchwil Gagendor Cyflog – Gagendor Cyflog Anabledd	Awst 2017	Copi digidol yn Gymraeg a Saesneg
Adroddiad Ymchwil 108: Gagendor cyflog ethnigrwydd	Awst 2017	Copi digidol yn Gymraeg a Saesneg
Adroddiad Ymchwil 109: Gagendor cyflog rhywedd	Awst 2017	Copi digidol yn Gymraeg a Saesneg
Adroddiad Ymchwil 110 : Ymchwil Gagendor Cyflog Mynd i'r afael â bylchau cyflog ar sail rhyw, anabledd ac ethnigrwydd adolygiad o'r cynnydd	Awst 2017	Copi digidol yn Gymraeg a Saesneg
Cyfleoedd teg i bawb: Strategaeth i leihau bylchau cyflog ym Mhrydain Fawr	Awst 2017	Copi digidol yn Gymraeg a Saesneg
Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau – Beth mae'n ei olygu i chi?	Awst 2017	Copi digidol yn Gymraeg a Saesneg
Cyflawni dyletswydd Prevent mewn modd cymesur a theg	Medi 2017	Copi digidol yn Gymraeg a Saesneg a 100 copi caled

Cyhoeddiad	Dyddiad	Copïau a argraffwyd dwyieithog wyneb i waered
Cymryd yr awenau: Arweiniad ynghlŷn â chroesawu cwsmeriaid a chŵn cymorth ganddynt	Medi 2017	Copi digidol yn Gymraeg a Saesneg
Cŵn cymorth: Canllaw ar gyfer pob busnes	Medi 2017	Copi digidol yn Gymraeg a Saesneg
Rheoli beichiogrwydd a mamolaeth yn y gwaith –Canllaw sgwrsio ar gyfer rheolwyr llinell	Medi 2017	Copi digidol yn Gymraeg a Saesneg
Pecyn Cymorth Gweithio Ymlaen	Medi 2017	Copi digidol yn Gymraeg a Saesneg
Gweithio Ymlaen: Cefnogi Hawliau Beichiogrwydd a Mamolaeth	Medi 2017	Copi digidol yn Gymraeg a Saesneg
Framwaith Mesur ar gyfer Cydraddoldeb a Hawliau Dynol – Crynodeb gweithredol	Hydref 2017	Copi digidol yn Gymraeg a Saesneg
Awgrymiadau ar gyfer mynd i'r afael â bwlio gwahaniaethol	Tachwedd 2017	Copi digidol yn Gymraeg a Saesneg
Adolygiad Blynyddol 2016 - 2017	Tachwedd 2017	Copi digidol yn Gymraeg a Saesneg a 150 copi caled dwyieithog wyneb i waered
Animeiddiad ar gyfer wythnos gwrth fwlio	Tachwedd 2017	Fersiwn digidol yn Gymraeg a Saesneg
Aflonyddu rhywiol a'r gyfraith: Canllaw i gyflogwyr	Tachwedd 2017	Copi digidol yn Gymraeg a Saesneg

Cyhoeddiad	Dyddiad	Copïau a argraffwyd
Yn Dilyn Grenfell: y Dimensiwn Hawliau Dynol a Chydraddoldeb	Rhagfyr 2017	Copi digidol yn Gymraeg a Saesneg
Pa mor dda mae'r Deyrnas Unedig yn perfformio ar hawliau anabledd? Pryderon ac argymhellion y CU ar y DU	Ionawr 2018	Copi digidol yn Gymraeg a Saesneg
Ymateb y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i'r Ymgynghoriad: Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr	Ionawr 2018	Copi yn Gymraeg a Saesneg
Deddf Cydraddoldeb 2010: canllaw i bleidiau gwleidyddol	Chwefror 2018	Copi digidol yn Gymraeg a Saesneg
Allwch chi ein helpu ni i helpu eraill? Achosion cyfreithiol	Chwefror 2018	Copi digidol yn Gymraeg a Saesneg
Cynnydd ar hawliau cymdeithasol-economaidd ym Mhrydain Fawr	Mawrth 2018	Copi digidol yn Gymraeg a Saesneg
Effaith cronol diwygiadau treth a lles	Mawrth 2018	Copi digidol yn Gymraeg a Saesneg
Effaith diwygio lles a rhaglenni lles i waith: adolygiad o'r dystiolaeth	Mawrth 2018	Copi digidol yn Gymraeg a Saesneg
Cynnydd ar hawliau cymdeithasol-economaidd ym Mhrydain Fawr	Mawrth 2018	Copi digidol yn Gymraeg a Saesneg
Sut i gyfrifo gwerth hawliad gwahaniaethu	Mawrth 2018	Copi digidol yn Gymraeg a Saesneg
Cau'r bwloch: Gorfodi rheoliadau'r bwloch cyflog rhwng y rhywiau	Mawrth 2018	Copi digidol yn Gymraeg a Saesneg
Hyfforddiant rhagfarn anymwybodol: Asesiad o'r dystiolaeth ar gyfer effeithiolrwydd. Crynodeb gweithredol	Mawrth 2018	Copi digidol yn Gymraeg a Saesneg

Cyhoeddiad	Dyddiad	Copïau a argraffwyd
Trowch y byrddau: Rhoi terfyn ar aflonyddu rhywiol yn y gweithle	Mawrth 2018	Copi digidol yn Gymraeg a Saesneg
Cynllun Busnes 2018-2019	Mawrth 2018	Copi digidol yn Gymraeg a Saesneg
Deall Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus: Adnoddau ar gyfer y trydydd sector yng Nghymru	Mawrth 2018	Copi yn Gymraeg a Saesneg
Deddf Cydraddoldeb 2010: Llawlyfr i Gynghorwyr	Mawrth 2018	Copi digidol yn Gymraeg a Saesneg
Confensiwn y Cenhedloedd Unedig yn Erbyn Arteithio: Sut y gall sefydliadau cymdeithas sifil helpu i wneud y Llywodraeth yn atebol	Mawrth 2018	Copi digidol yn Gymraeg a Saesneg
Fframwaith Mesur ar gyfer Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: Crynodeb Gweithredol a Chanllawiau Cyflym	Mawrth 2018	Copi digidol yn Gymraeg a Saesneg
Sut i gyfrifo gwerth hawliad gwahaniaethu	Ebrill 2018	Copi digidol yn Gymraeg a Saesneg

Cafodd ymatebion i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol a gafodd eu cyhoeddi'n gyhoeddus eu cyfieithu i'r Gymraeg.

Bydd yr holl ddatganiadau i'r wasg, y deunydd hysbysebu a chyhoedduswyd a gyhoeddir gan y Comisiwn yng Nghymru, yn ogystal ag unrhyw ddeunydd gwybodaeth a hyrwyddol a ddangosir mewn digwyddiadau yng Nghymru, yn ddwyieithog.

2.4 Y wefan

Er i'r Comisiwn ailwampio'i wefan yng Ngwanwyn 2016 i fersiwn mwy modern sy'n cynnig y dulliau diweddaraf o ymgysylltu â'r cyhoedd, nid yw'r cyfleustra i alluogi cynnwys y tudalennau cyfatebol Cymraeg i ymddangos yn hollol yn Gymraeg ar waith eto yn y wefan newydd. Mae'r Comisiwn, gyda'i ymagwedd ymrwymedig yn gweithio'n glos gyda datblygwyr y wefan i ddileu'r anawsterau cyn gynted â phosibl,

fel bo'r tudalennau ar y wefan Prydain eang, sydd yn berthnasol i'r cyhoedd yng Nghymru, yn ymddangos yn gwbl ddwyieithog.

Bydd tudalen Hafan y Comisiwn Prydain eang yn parhau i gynnig yr eitemau, blogiau a'r datganiadau newyddion diweddaraf ar gydraddoldeb a hawliau dynol, yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae'r ffurflenni cofrestru ar-lein yn Gymraeg ac yn Saesneg fel y gall rhanddeiliaid a mynychwyr digwyddiadau gofrestru iddyn nhw yn eu dewis iaith.

Pan fyddwn yn ymgymryd ag arolygon neu ymchwiliadau sy'n cynnwys y cyhoedd yng Nghymru, mae'r holl arolygon ar-lein yn Gymraeg a Saesneg.

Cafodd pob hysbyseb swydd gan y Comisiwn Prydain eang ei chyhoeddi yn gyhoeddus ar-lein yn Gymraeg a Saesneg.

Yn ôl Ystadegau Blynnyddol Gwefan y Comisiwn: 1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2018, dangosodd archwiliad manwl ar ddefnydd y deunydd yn ôl iaith y bu cyfanswm o 4,715 o olygon tudalen iaith Gymraeg.

Heblaw am dudalennau glanio adran Cymru'r Comisiwn nad ydym ar hyn o bryd yn gallu eu golygu, oherwydd y problemau a soniwyd amdanynt eisoes uchod, mae'r holl dudalennau eraill yn yr adran hon yn Gymraeg a Saesneg.

Ar waelod pob tudalen mae togl Cymraeg/Saesneg sy'n caniatáu yn syth i'r gwylwyr gael y dudalen gyfatebol yn yr iaith arall.

Gall gwylwyr hefyd ddewis i ddod o hyd i wybodaeth drwy'r blwch chwilio yn eu dewis iaith. Dangosir canlyniad y chwiliad yn iaith y dudalen rhyngwyneb cyfredol.

Bwriedir y bydd pob dolen ar y tudalennau Cymraeg sydd yn cyfeirio defnyddwyr at wefan allanol yn cysylltu â thudalennau Cymraeg y safle hwnnw, fel bo'r dewis iaith yn parhau.

Gyda chymorth tîm gwefan y Comisiwn, bydd y Swyddog Iaith Gymraeg yn golygu a llwytho'r tudalennau Cymraeg, gan sicrhau bod y cynnwys yn adlewyrchu'r fersiynau Saesneg diweddaraf. Yn ogystal bydd yn gwirio safon y Gymraeg a sicrhau bod yr eirfa yn dderbyniol i arbenigwyr a rhanddeiliaid yn y maes cydraddoldeb a hawliau dynol. Er mai'r bwriad yw cyhoeddi'r dudalen gyfatebol Gymraeg cyn gynted â phosib ar ôl cyhoeddi'r dudalen Saesneg, nid yw hynny bob amser yn bosib.

Bydd y Swyddog Iaith Gymraeg yn barhaus yn ymgysylltu â'r teclyn ar y wefan sy'n arwyddo bod tudalen Saesneg wedi'i diwygio gan yr wybodaeth ddiweddaraf ac aiff ati wedyn i olygu'r dudalen gyfatebol Gymraeg.

2.5 Y cyfryngau cymdeithasol

Ymgymmerir â mwy na 90% o ohebiaeth cyfryngau cymdeithasol y Comisiwn yng Nghymru yn Gymraeg a Saesneg fel ei gilydd ac fe'i cyhoeddir ar yr un pryd. Trwy'r cyfrwng hwn bydd y Comisiwn yn rheolaidd yn atgoffa'r rhanddeiliaid ei fod yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

2.6 Arwyddion

Ar y safle lle caiff swyddfa Cymru'r Comisiwn ei lleoli, mae pob arwydd sydd yn cyfeirio ymwelwyr at y swyddfa yn ddwyieithog gyda'r enwau Cymraeg a'r Saesneg yn ymddangos yn y drefn honno.

2.7 Dyfarnu contractau

Mae unrhyw gytundebau neu drefniadau a wnawn â thrydydd parti yn gyson â Safonau'r Gymraeg. Bydd y Gymraeg bob amser yn cael ei hystyried wrth inni ymgymryd â phartneriaethau, digwyddiadau a chyhoeddiadau ar y cyd a gweithio ar y cyd. Bydd cytundebau caffael yn gofyn ar gontractwyr i ystyried amser ac adnoddau ar gyfer y Gymraeg pan fo hynny'n briodol. Mae ein trefniadau caffael yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cyfieithu a chymorth cyfathrebu. O ran cyfieithu a Chymorth Cyfathrebu, megis Cyfieithu ar y pryd, mae gan y Comisiwn, yn dilyn strategaethau caffael Llywodraeth ganolog, gontractau ar waith sydd eisoes wedi'u trefnu ac sydd yn cwmpasu lliaws o ieithoedd gan gynnwys Cymraeg.

Cafodd y trefniadau a ganlyn eu trefnu yn unol â'r trefniadau hynny:

- Prosiect Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid yn ceisio am gontractwr (contractwyr) gyda phrofiad addas i lunio ystod o adnoddau i adrodd profiadau byw ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru
- Dadansoddiad o gydymffurfiaeth â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) – comisiynwyd NATCEN Social Research gan y CCHD i fonitro profiadau awdurdodau lleol wrth lunio, gweithredu a gwerthuso deilliannau eu nodau cydraddoldeb o dan y PSED
- Diverse Cymru – Creu Adnoddau PSED ar gyfer y Trydydd Sector
- Cwrs Nodi a Thaclo Gwahaniaethu yn y Gweithle yn cael ei gynnal gan Lancaster Consulting HR Ltd (Hydref 2017) ar ran y Comisiwn

- Barn gyfreithiol x 2 - Brexit a Deddf Cymru
- Effaith Integreiddiad Cyfreithiol Confensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn yng Nghymru.

2.8 Safonau Llundio Polisi yng Nghymru

Eir i'r afael â gofynion Safonau'r Gymraeg yn adran 'Other considerations' Papurau Briffio Prosiectau/Cynllun Cyfarwyddiaeth y CCHD. Dogfen sylfaenol ofynnol yw ar gyfer cyflenwi cynllun busnes y Comisiwn. Ni chymeradwyir unrhyw brosiect gan fwrdd y Comisiwn oni bai fod goblygiadau penodol gwledydd y ddau bwyllgor statudol, Cymru a'r Alban, ynglŷn â chwmpas a chyfeiriad y gwaith wedi'u hystyried a'u cytuno arnynt.

Mae canllaw ar ein mewnwyd, ar gyfrifo lledamcanion cost ar gyfer cynllunio prosiectau, yn cynnwys cyngor i ystyried cyfieithu i'r Gymraeg.

Wrth gomisiynu neu gynnal unrhyw ymchwil neu ymgynghoriad sy'n ymwneud â'r cyhoedd yng Nghymru, bydd y Comisiwn yn sicrhau bod pob gohebiaeth/gwahoddiad/arolwg/ymgynghoriad yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Roedd nodau a mesurau llwyddiant 2017/18 y Comisiwn yn cynnwys:

- Sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion Safonau'r Gymraeg o dan Fesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.
- Adroddiad Monitro Cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg ar gyfer y flwyddyn 19 Ebrill 2017 – 20 Ebrill 2018 wedi'i gyhoeddi ar wefan y CCHD erbyn 30 Medi 2018
- Tystiolaeth bod darpariaethau iaith Gymraeg y CCHD yn bodloni anghenion rhanddeiliaid Cymraeg eu hiaith e.e. rhanddeiliaid yn defnyddio'r Gymraeg wrth siarad â ni ar y ffôn neu gyfathrebu'n ysgrifenedig, neu wrth gyfranogi mewn digwyddiadau a llenwi taflenni gwerthuso
- Gwefan y Comisiwn yn ateb safonau ac anghenion rhanddeiliaid Cymraeg eu hiaith.

2.9 Safonau Gweithredu yng Nghymru

Ar 19 Ebrill 2017, mae'r Comisiwn yng Nghymru yn cynnwys 12 o aelodau staff, gan gynnwys Swyddog Iaith Gymraeg. Mae tri o'r 12 yn rhugl yn eu Cymraeg, mae dau yn deall ychydig ac mae dau, drwy arian gan y Comisiwn, yn dilyn cyrsiau iaith Gymraeg, un ar lefel sylfaenol a'r llall ar lefel uwch.

Mae dau siaradwr Cymraeg rhugl yn swyddfa'r Comisiwn ym Manceinion.

Ar fewnwyd y Comisiwn, mae'r adran Comisiwn yng Nghymru yn cynnig gwybodaeth ar weithio yn a chyda Cymru, gan gynnwys adnoddau defnyddiol ar sut mae rhai pethau penodol yn gweithio yng Nghymru, megis datganoli a'r iaith Gymraeg. Mae gan yr adran hon adran i'r diben o ddarparu ymadroddion Cymraeg sylfaenol i'w defnyddio bob dydd, help gydag ynganu Cymraeg ac ymadroddion defnyddiol wrth ateb y ffôn yn Gymraeg yn y swyddfa yng Nghaerdydd, yn ogystal â rhestr geirfa Cymraeg ynglŷn â chydarddoldeb a hawliau dynol sydd yn dderbyniol i rhanddeiliaid yn y maes.

Bydd y Comisiwn bob amser yn cefnogi gweithwyr wrth ddefnyddio'u Cymraeg yn y gwaith bob dydd pan fo'n briodol, synhwyrol ac ymarferol i wneud felly. Ni allai ymwelwyr i'n swyddfa yng Nghymru ond canfod sylw iach i'r ddwy iaith. Bydd siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn gyfforddus wrth gyfathrebu yn Gymraeg wrth ymgymryd â'u cyfrifoldebau gwaith bob dydd. Bydd yr agwedd gadarnhaol hon at y Gymraeg bob amser yn hanu o'r pennaeth i lawr, gan greu effaith calonogol ac ymledol.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, darparodd y Comisiwn arian ar gyfer dau aelod o staff yn y swyddfa yng Nghymru i fynychu cyrsiau i ddysgu'r Gymraeg.

Mae pob arwydd, ar y safle y lleolir swyddfa Cymru'r Comisiwn, yn hysbysu'n presenoldeb yno yn ddwyieithog. Mae'r posteri ar waliau ein swyddfa, sydd yn arddangos meysydd allweddol ein gwaith, yn Gymraeg ac yn Saesneg ac mae amrywiaeth o ddeunyddiau darllen yn Gymraeg ac yn Saesneg ar gael, sydd yn ymwneud â'n gwaith.

2.10 Safonau Cadw Cofnodion

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, ni chafwyd unrhyw gwynion (ffurfiol neu anffurfiol) yn ymwneud â chydymffurfiaeth y Comisiwn â Safonau'r Gymraeg.

Ar 20 Ebrill 2018, mae, yn y Comisiwn, 4 cyflogai sydd yn rhugl wrth siarad Cymraeg, 2 yn y swyddfa yng Nghymru, 2 yn y swyddfa ym Manceinion, mae 2 gyflogai'n deall ychydig o'r Gymraeg, ac mae 1, drwy arian gan y Comisiwn, yn mynychu cwrs i ddysgu'r Gymraeg ar lefel uwch.

Cafodd 5 aelod o staff newydd eu recriwtio yn y swyddfa yng Nghymru eleni:

- swydd Swyddog Cefnogi Busnes yng Nghymru gyda'r gallu i siarad Cymraeg yn rhugl a'i hysgrifennu yn ddymunol a pharodrwydd i ddefnyddio cyfarchion sylfaenol yn yr iaith yn hanfodol
- swydd Prif Swyddog Cysylltu, gyda'r gallu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn ddymunol
- 3 aelod o Bwyllgor Cymru – wrth benodi aelodau newydd, dymuniad y Comisiwn yw adlewyrchu amrywiaeth, gan gynnwys gallu ieithyddol, Cymraeg a/neu ieithoedd cymunedol

Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd gweithgor yn cynnwys Uwch Swyddogion a Swyddogion Cyswllt i drafod arfer da wrth gydymffurfio â safonau'r Gymraeg.